Ministry of Justice

**Arglwydd Timpson**
Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol,
HMP/YOI Parc,
Heol Hopcyn John,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF35 6AP

Cyf MoJ: 120339

3 Ionawr 2025

Annwyl Gadeirydd,

**HMP/YOI PARC: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2022 – 31 MAWRTH 2023**

Diolch i chi am gyflwyno adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar HMP/YOI Parc. Ar ôl darllen eich adroddiad yn ofalus, rwy'n hynod ddiolchgar am yr holl waith caled a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad a nodi'r materion pwysig a godir ynddo. Mae hyn yn dipyn o gamp o gofio bod aelodaeth y Bwrdd wedi bod llai na thraean yn brin o aelodau. Cefais gyfle hefyd i ymweld â'r carchar yn gynharach y mis hwn i siarad gyda Chyfarwyddwr y Carchar, staff ac aelodau o'r Bwrdd gan roi profiad amhrisiadwy i mi o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y carchar.

Roeddwn yn drist iawn o ddarllen bod 11 o garcharorion wedi marw yn ystod y flwyddyn adrodd a hoffwn gydymdeimlo'n ddwys â'u ffrindiau a theuluoedd. Mae'n bwysig yn yr amgylchiadau trallodus hyn ein bod yn gweithredu argymhellion y PPO a hoffwn sicrhau anwyliaid y rhai a fu farw bod marwolaethau mewn carchar yn cael eu cymryd yn wirioneddol o ddifrif. Mae Gwasanaeth Prawf a Charchardai EF (HMPPS) wedi bod yn cynorthwyo'r carchar i ddeall pam fod y clwstwr hwn o farwolaethau wedi digwydd a, lle bo hynny'n briodol, i weithredu newidiadau gyda'r nod o atal marwolaethau pellach, gan gyflwyno rhybudd gwella i'r carchar ym mis Mawrth 2024. Ers hynny mae'r carchar wedi cynhyrchu cynllun gyda'r nod o weithredu ar fyrder ar chwe ffactor allweddol (staff, diogelwch pobl ac eiddo, cyffuriau, cyfundrefn a pharch) ac wedi bod yn ei weithredu ers Mehefin 2024.

Rwy'n llwyr ddeall pryderon y Bwrdd am garcharorion sy'n treulio dedfrydau amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP). Gobeithio bod y Bwrdd bellach yn ymwybodol bod dedfrydau IPP wedi eu diwygio gan y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024. Ar 5 Medi 2024, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol amserlen raddol ar gyfer cyflwyno'r newidiadau hyn. Dechreuodd hyn ar 1 Tachwedd, gyda thrwyddedau 1,742 o bobl a ryddhawyd ar drwydded IPP am y tro cyntaf o leiaf 5 mlynedd yn ôl, neu 4 blynedd i rai a gafwyd yn euog pan oeddent o dan 18 oed ac wedi treulio'r ddwy flynedd ddiwethaf ar drwydded heb gael eu galw'n ôl i'r carchar, yn cael eu terfynu'n awtomatig. Fel rhan o'r cam nesaf ar 1 Chwefror 2025, bydd y cyfnod cymhwyso pryd y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio trwydded IPP at y Bwrdd Parôl i ystyried ei therfynu yn lleihau o 10 mlynedd i 3 blynedd, neu ddwy flynedd i rai a gafwyd yn euog pan oeddent o dan 18 oed. Mae hyn yn golygu y bydd 600 o bobl yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Parôl i ystyried terfynu eu trwyddedau.

Cytunaf y gall peidio â gwybod pryd y byddant yn cael eu rhyddhau achosi pryder sy'n effeithio ar iechyd meddwl carcharorion IPP. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o gynorthwyo carcharorion IPP i adsefydlu drwy Gynllun Gweithredu diwygiedig newydd a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2024. Mae'r Cynllun newydd yn rhoi pwyslais ar wasanaethau rheng flaen effeithiol yn ein carchardai a Gwasanaeth Prawf,

i sicrhau bod gan rai sy'n treulio dedfrydau IPP gynlluniau dedfrydu trylwyr ac effeithiol a'u bod yn ymgysylltu'n effeithiol â nhw ac yn y carchar iawn i dderbyn yr ymyriadau a'r gwasanaethau adsefydlu iawn ar eu cyfer. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o'u helpu i leihau eu risg er mwyn gallu symud ymlaen i gael eu rhyddhau'n ddiogel o'r carchar. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu diwygiedig yn yr Adroddiad Blynyddol IPP sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/hmpps-annual-report-on-the-ipp-sentence-2023-to-24. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y byddai ymarfer ail-ddedfrydu'n debygol o arwain at ryddhau'r rhan fwyaf sy'n dal i dreulio dedfryd IPP yn y carchar, heb unrhyw oruchwyliaeth trwydded ar eu cyfer, er bod y Bwrdd Parôl o'r farn yn flaenorol y dylai'r unigolion hyn aros yn y carchar er mwyn diogelu'r cyhoedd. Bydd HMPPS yn parhau i fonitro cynnydd y Cynllun Gweithredu IPP ac i ymgynghori â sefydliadau arbenigol a grwpiau ymgyrchu i sicrhau bod pob opsiwn yn cael ei ystyried yn ofalus o ran pa waith arall y gallwn ei wneud, ond rwy'n gobeithio y gallwch ddeall mai diogelu'r cyhoedd yw'r flaenoriaeth fwyaf i'r Llywodraeth o hyd ac na allwn wneud unrhyw beth i roi hyn yn y fantol.

Er y cyfnod o newid yn y carchar, rwy'n hynod werthfawrogol o ymdrechion pawb wrth symud at y trefniadau cytundebol newydd i gadw'r gwasanaethau i fynd ar gyfer y carcharorion yn HMP/YOI Parc. Mae hyn i'w groesawu'n fwy fyth o ystyried y lleihad sylweddol yn nifer y digwyddiadau o drais a hunan-niwed dros y cyfnod adrodd, sy'n hynod galonogol. Roeddwn yn falch o nodi bod pob carcharor yn derbyn o leiaf un sesiwn gweithiwr allweddol pob mis, a llawer yn derbyn mwy na hyn, oherwydd mae hyn yn wasanaeth cymorth pwysig i garcharorion yn y carchar. Roedd yn galondid hefyd darllen am waith staff a gwirfoddolwyr gwasanaethau teuluol Invisible Walls sydd wedi bod yn hynod ymroddedig dros y 15 mlynedd diwethaf.

Nodaf eich bod wedi codi rhai materion pryder lleol yn eich adroddiad a bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i'ch diweddaru ar hyn wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rhoddir sylwadau HMPPS mewn ymateb i faterion eraill a godwch yn eich adroddiad yn yr atodiad amgaeedig.

Rwyf i a'r Arglwydd Ganghellor yn gwerthfawrogi'n aruthrol rôl werthfawr aelodau'r Byrddau Monitro Annibynnol ar draws yr ystâd ac yn hynod ddiolchgar i chi a'ch tîm am eich gwaith caled parhaus ar ran HMP/YOI Parc.



**Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

**Atodiad**

## HMP/YOI PARC: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2022 – 31 MAWRTH 2023

**Sylwadau HMPPS ar faterion a godir yn yr adroddiad**

### Eiddo Carcharorion

Fel y mae'r Bwrdd yn cydnabod, rhaid i'r pwyslais barhau i fod ar garcharorion yn cydymffurfio â'r uchafswm rheolaeth feintiol oherwydd dylai unrhyw eiddo o fewn yr uchafswm hwn drosglwyddo gyda'r carcharor, ynghyd ag eitemau a eithriwyd o reolaeth feintiol, fel papurau cyfreithiol. Mae'r Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion hefyd yn glir y dylai Llywodraethwyr a Chyfarwyddwyr sicrhau y gwneir archwiliadau gan reolwyr i roi sicrwydd bod eiddo carcharorion yn cael ei drin yn gywir a gofalus, ac yn cydymffurfio â'r uchafswm rheolaeth feintiol. Y carchar sy'n anfon sy'n gyfrifol am drosglwyddo unrhyw eiddo sydd ar ôl. O'r blaen nid oedd terfyn amser ar gyfer sicrhau bod eiddo'n cael ei anfon ymlaen ond, ers cyflwyno'r Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion, mae'n ofynnol i garchardai drosglwyddo unrhyw eiddo sydd ar ôl o fewn pedair wythnos.

Yn lleol, rydym yn cydnabod bod maint ffisegol y Storfeydd Eiddo yn HMP/YOI Parc a'r cynnydd yn y boblogaeth dros nifer o flynyddoedd wedi gwneud storio eiddo'n anodd. Mae Rheolwyr Diogelwch wedi gwneud defnydd gwell o ganllawiau'r Fframwaith Polisi, gan ddefnyddio mwy ar gyfleusterau storio eiddo canolog HMPPS yn Branston, ac mae Strategaeth Ddiogelwch Leol a Pholisi Chwilio'r carchar yn cynnwys canllawiau ar sut i ddilyn y drefn rheolaeth feintiol a lefelau rheolaeth feintiol. Mae tîm Rheolydd HMPPS y safle hefyd wedi cwblhau nifer o ymweliadau sicrwydd eiddo a bellach yn gweld gwelliannau.

Mae HMPPS yn nodi pryderon y Bwrdd am eiddo ond nid yw'n ymarferol bosib i'r holl eiddo dros ben y gallai carcharor fod wedi'i gasglu, sydd dros yr uchafswm meintiol hwn, gael ei drosglwyddo gyda'r carcharor. Mae HMPPS yn ymwybodol o'r problemau gydag eiddo ac yn parhau i weld beth arall y gellir ei wneud.

### Y Gyllideb Fwyd

Gellir sicrhau'r Bwrdd bod carchardai cyhoeddus a phreifat yn dilyn y canllawiau ar fwyd ac anghenion maeth yn unol â Chyfarwyddyd 44/2010 y Gwasanaeth Carchardai ar gyfer Arlwyo - Prydau Bwyd i Garcharorion. Mae prydau bwyd a bwydlenni yn HMP/YOI Parc yn cael eu paratoi'n unol â'r PSI ac mae gan y carchar gyllideb arlwyo ddyddiol fesul carcharor sy'n unol â chyllidebau arlwyo carchardai cenedlaethol HMPPS. Mae'r cyngor carcharorion lleol wedi rhoi adborth defnyddiol ar fwydlenni, ansawdd a maint prydau ac mae Cyfarwyddwr y Carchar wedi bod yn gweithio ag uwch-reolwyr a'r darparwr arlwyo i adolygu'r prydau bwyd. Derbyniwn fod rhai problemau wedi codi oherwydd diffygion cyfarpar neu ddiffygion yn y gegin ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi cael sylw. Mae'r darparwr arlwyo ers hynny wedi gwella ansawdd y prydau bwyd ynghyd â'r dulliau o ddosbarthu bwyd i'r ardaloedd gweini. Cyflwynwyd nosweithiau bwyd themâu rhyngwladol amrywiol i ddathlu bwyd o wahanol ddiwylliannau, a groesawyd yn frwd, gyda rhewgelloedd wedi eu gosod yn yr ardaloedd gweini i gynorthwyo gyda gweini pwdinau oer. Mae'r carchar hefyd yn parhau i adolygu ei wastraff bwyd er mwyn gallu ail-fuddsoddi'r arbedion yn y fwydlen.